Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC

Hydref 2019


**Yn ddiweddar, mae BCMS wedi rhyddhau data cofrestru lloi ar gyfer lloi cig eidion a llaeth yng Nghymru am saith mis cyntaf eleni. Parhaodd niferoedd y lloi cig eidion yn weddol sefydlog, ond gwelwyd dirywiad sylweddol yn nifer y cofrestriadau lloi llaeth. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y canlyniadau hyn.**

**Cyfanswm cofrestriadau lloi**
**-0.8%**
(Ion - Gorff 2019)

Mae ystadegau gan Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) yn dangos fod 248,900 o loi wedi cael eu cofrestru yng Nghymru yn ystod saith mis cyntaf eleni, sef 0.8% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Mae'r gostyngiad cyffredinol yn y niferoedd yn dilyn gostyngiad sylweddol yn nifer y lloi llaeth a gofrestrwyd, sef gostyngiad o 3.6% yn ystod y cyfnod hwn i 176,800. Roedd cofrestriadau'r lloi cig eidion ychydig yn fwy sefydlog a gwelwyd cynnydd o 0.4% i 176,800 o'r naill flwyddyn i'r llall. O fewn cyfanswm y lloi cig eidion yng Nghymru, roedd rhaniad gweddol cyfartalog rhwng yr anifeiliaid gwryw a benyw, gyda 49.4% o'r cofrestriadau ar gyfer lloi benyw a 50.6% ar gyfer lloi gwryw.


Roedd nifer cofrestriadau'r lloi cig eidion ar ei huchaf ym mis Mai, pan gofrestrwyd 39,000 (1.7% yn fwy nag yn yr un mis flwyddyn ynghynt). Roedd y niferoedd ym mis Ebrill (38,900) hefyd yn gymharol uchel, ond ychydig yn is (-0.4%) nag oeddent flwyddyn ynghynt. O ganlyniad, ym misoedd Mai ac Ebrill y cofrestrwyd bron i 45% o'r holl loi cig eidion a gofrestrwyd hyd yma eleni. Mae hyn yn dangos fod y rhan fwyaf o gynhyrchwyr yng Nghymru sy'n lloia yn y gwanwyn yn anelu at loia cyn troi allan neu'n fuan wedyn.

**Cofrestriadau lloi cig eidion yng Nghymru, 2019**





Yn 2018, cafodd 4.9% o'r lloi cig eidion yng Nghymru eu cofrestru yn ystod mis Rhagfyr, sy'n debyg i ffigurau 2017 ac sy'n dangos y potensial i gyfyngu'r cyfnod lloia mewn buchesi cig eidion. Am fod cynhyrchwyr yn chwilio am well perfformiad ar y fferm, gallai hyn leihau'r bwlch lloia cyfartalog a byddai hynny'n gwella ffrwythlondeb y fuches ac yn lleihau costau. Argymhellir diagnosis beichiogrwydd (PD) er mwyn cynnal cyfnodau lloia cyson a'i gwneud yn haws i reoli'r fuches. Yn ystod y cyfnod presennol o ansicrwydd, mae'n bwysig bod y gwartheg yn gynhyrchiol.

**Trwybwn da byw y DU (Ion-Awst)**





Mae'r fuches sugno yn y DU wedi bod yn crebachu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac roedd 1.56 miliwn o wartheg sugno ym mis Mehefin 2018, sef 1.9% yn llai nag yn 2017. Wrth edrych tua'r dyfodol, nid yw'r fuches yn dangos unrhyw arwyddion o gynyddu. Hyd yma eleni, lladdwyd 517,800 o heffrod, sef y nifer fwyaf oddi ar 2014. Mae hyn yn 3.2% yn fwy na'r llynedd a 7.0% yn fwy na 2017). Wrth edrych ar niferoedd yn y DU y llynedd, roedd cyfanswm y cofrestriadau lloi yn 1.8% yn is nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu y gellid gweld cyflenwad mwy cyfyng, a gallai hynny olygu gwell prisiau i gynhyrchwyr cig eidion.





## GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 172.8c/kg ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 05 Hydref, sef 1.4c yn is nag yn yr wythnos flaenorol, a 19.3c yn is nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae prisiau gwartheg wedi parhau i ostwng gyda'r pris pwysau byw ar hyn o bryd yn 14.3c yn is na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2014-18: 187.1c/kg). Yn yr wythnos yn diweddu 05 Hydref, mewn cymhariaeth â'r wythnos flaenorol, codwyd prisiau pwysau marw yng Nghymru a Lloegr ar gyfer heffrod (+1.2c i 319.6c/kg) a theirw ifainc (+0.6c i 302.4c/kg). Roedd prisiau bustych i lawr 1.0c ar yr wythnos i 318.0c/kg, ac erbyn hyn maent yn 44.5c yn is na blwyddyn ynghynt.

Cyfanswm y gwartheg a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Awst oedd 215,200. Mae hyn yn debyg i'r nifer yn y mis blaenorol, ac yn 1.0% yn fwy nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Roedd cyfanswm yr holl wartheg dethol a laddwyd yn ystod y mis yn debyg i fis Awst y llynedd (-0.1%). Serch hynny, cafwyd cynnydd o 1.5% yn nifer yr heffrod a chynnydd o 1.2% yn nifer y bustych Roedd niferoedd y buchod a theirw difa yn 0.7% yn uwch na blwyddyn ynghynt. Er bod y niferoedd a laddwyd yn debyg i'r llynedd, cynhyrchwyd 2.7% yn fwy o gig eidion a chig llo. Y rheswm am hyn oedd bod carcasau'r gwartheg dethol, ar gyfartaledd, yn 7.1kg yn drymach ac yn pwyso 355.8kg.









## DEFAID

Mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) cyfartalog ar gyfer Cymru yn y marchnadoedd da byw yn dal i ddilyn y duedd dymhorol. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 05 Hydref roedd yn 159.2c/kg. Mae'r pris cyfredol yn ostyngiad o 2.0c o'r naill wythnos i'r llall ac mae'n 5.5c yn is nag oedd flwyddyn ynghynt, ond yn 1.0c yn uwch na'r cyfartaledd pum mlynedd o 158.2c/kg. Roedd y pris cyfartalog am famogiaid difa yn y marchnadoedd da byw yng Nghymru yn yr wythnos yn diweddu 05 Hydref yn £45.10, sef 50c yn is nag yn yr wythnos flaenorol, ond £6.10 yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Roedd prisiau pwysau marw ym Mhrydain yn 371.2c/kg yn yr wythnos yn diweddu 05 Hydref, sef 20.7c yn is nag oeddent flwyddyn yn gynharach.

Cafodd 1.4 miliwn o ddefaid eu lladd yn lladd-dai'r DU ym mis Awst, sef 15.0% yn fwy nag ym mis Gorffennaf, ond rhywbeth yn debyg i'r mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach (-0,2%). ŵyn dethol oedd bron 90% o'r holl ddefaid a laddwyd yn ystod y mis, ac roedd 5.4% yn fwy na'r llynedd o famogiaid a hyrddod difa. Wrth edrych ar y cyfnod rhwng Mai ac Awst eleni, mae niferoedd yr ŵyn dethol yn 4.6% yn uwch nag oeddynt flwyddyn yn gynharach. Cynhyrchwyd mwy o gig defaid ym mis Awst eleni nag yn yr un mis y llynedd – a hynny am fod carcasau ŵyn dethol a mamogiaid a hyrddod difa yn 0.2kg yn drymach ar gyfartaledd.




## MOCH

Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 156.4c/kg yn yr wythnos yn diweddu 28 Medi, sef 0.3c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol a 5.9c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach. Cododd prisiau yn uwch na'r hyn oeddent flwyddyn ynghynt yn ystod diwedd mis Mehefin, ac mae'r duedd hon wedi parhau, gyda phrisiau yn 6.4c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (sef 150.0c/kg). Mae adroddiadau'n dangos bod galw mawr o hyd o ranbarth Asia oherwydd Clwy Affricanaidd y Moch, ac mae hynny'n cadw prisiau ar i fyny. Roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg yn yr wythnos yn diweddu 05 Hydref dim ar gael, ac roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £39.75 y mochyn (+10.21% uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl).

Roedd nifer yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU yn 957,700 ym mis Awst, sef 3.4% yn fwy nag ym mis Gorffennaf, a 1.2% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Lladdwyd 938,500 o foch heb fagu yn lladd-dai'r DU ym mis Mehefin, sef 3.5% yn llai nag yn y mis blaenorol a 0.7% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Cynhyrchwyd 0.2% yn fwy o borc yn ystod y mis am fod carcasau'n drymach; roedd hychod a baeddod yn 3.4kg yn drymach nag ym mis Awst y llynedd.

